WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Dyddiad cyflwyno: 23 Hydref 2017

Ymgyrch Kansas

Ysgrifennaf i ymateb i'ch cais am wybodaeth isod dyddiedig 9 Hydref 2017 i ofyn am wybodaeth am Ymgyrch Kansas.

Er mwyn hwylustod rwyf wedi copïo eich cwestiwn isod a nodi ein hateb cyfatebol.

Os gwelwch yn dda a wnaiff Swyddfa Archwilio Cymru roi manylion cost neu amcangyfrif o gost 'Ymgyrch Kansas' i mi o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. 1998?

Nid ydym yn cadw gwybodaeth ynghylch cost neu amcangyfrif o gost Ymgyrch Kansas.

Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd statudol cyfrifon y comisiynydd a phrif gwnstabl pob ardal heddlu yng Nghymru. Nid yw'r datgeliadau sy'n ofynnol yn y cyfrifon yn rhoi manylion am ymgyrchoedd unigol ac ni ofynnodd yr Archwilydd Cyffredinol am wybodaeth ynghylch Ymgyrch Kansas ac ni ddarparwyd gwybodaeth iddo er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau.

Efallai yr hoffech chi ystyried gwneud cais i Heddlu De Cymru, ceir gwybodaeth am wneud cais yn: https://www.south-wales.police.uk/cy/eich-hawl-i-wybodaeth/ceisiadau-rhyddid-gwybodaeth/

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y ffordd yr ymdriniais â'ch cais, cysylltwch â mi yn ddi-oed.

Yn gywir